Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod:	**18 Mawrth, 2021**
Aelod Arweiniol / Swyddog	**Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol** **Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio**
Awdur yr Adroddiad:	**Iolo McGregor, Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad**
Teitl	**Cynllun Corfforaethol, Chwarter 3, 2020 i 2021 - Diweddariad**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni Cynllun Corfforaethol 2020 i 2021 ar ddiwedd chwarter 3 (mis Hydref i fis Rhagfyr 2020).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth am gynnydd y Cyngor ar ddiwedd chwarter 3, 2020 i 21, mewn perthynas â chyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol.

2.2 Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro hanfodol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella. Mae adroddiadau perfformiad chwarterol yn cael eu rhannu â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA), y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn rheolaidd.

3. Beth yw’r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried yr adroddiad, ac unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i ymateb i unrhyw faterion sy’n ymwneud â pherfformiad a amlygir yn yr adroddiad.

3.2 Yn amodol ar unrhyw newidiadau a gytunwyd, mae’r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn cadarnhau cynnwys yr adroddiad drafft.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 yn gosod y cyfeiriad strategol i'r cyngor a'i flaenoriaethau dros y cyfnod o bum mlynedd. Nodir y manylion ynglŷn â’r hyn mae’r cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i helpu cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol. Mae'r prosiectau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglenni. Caiff adroddiadau cynnydd eu darparu i'r UDA, y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet drwy ein hadroddiadau chwarterol.

4.2 Yn yr adroddiad hwn, darperir crynodeb o ddata a diweddariadau prosiect, ynghyd â tablau data sy’n rhoi amlinelliad llawn o’n sefyllfa bresennol. Cyflwynir astudiaethau achos diweddar hefyd, sy'n dangos ein cefnogaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Cydraddoldeb, a'r Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae’r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am ein cynnydd wrth gyflawni’r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu at gyflawni’r Blaenoriaethau Corfforaethol yn llwyddiannus.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y Cyngor ac nid oes unrhyw effaith bosibl ar bobl sydd â nodweddion a ddiogelir. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2017.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r adroddiad wedi'i lunio gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae'r wybodaeth ynglŷn â pherfformiad sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen wedi ei darparu gan wasanaethau, ac mae wedi ei chymryd o'r system reoli perfformiad Verto. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Tîm Arwain Strategol ar 4 Mawrth. Yn dilyn y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 18 Mawrth, caiff ei rannu gyda'r Cabinet ar 23 Mawrth.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risg benodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Gofrestr Risgiau Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) achosion posib' o risg a allai olygu na all y Cyngor gyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi'i thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2 Mae Adran 21 y Ddeddf Llywodraeth Leol yn nodi rôl a phwerau ein Pwyllgor Craffu. Mae Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu rôl y Pwyllgor Craffu Perfformiad i adolygu a chraffu ar y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig; gan gynnwys rheoli perfformiad a'r Cynllun Corfforaethol.